NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

# Summary | Newport City Council SPF Grants 2025/6 II Cohort September/25

## ❓What

The Newport Community Development Grant 2025–2026 funds innovative local projects that strengthen communities and promote inclusion. It supports initiatives in **culture, environment, safety, and equal opportunity**. Grants range from £1,000 to £15,000 (only in very specific cases a slightly higher bit would be accepted) and are available for organisations acting in Newport and delivering impact on the ground. The grant scheme particularly **welcomes innovative and experimental projects that test new concepts** to benefit Newport communities

## 👥Who

Voluntary sector organisations, Social enterprises, Registered or unregistered community groups (must have leadership and a bank account), Schools (for extracurricular projects only), SMEs and startups (for non-profit, community-benefiting projects)

Applicants must be based in Newport or clearly demonstrate local impact and ongoing benefit to Newport residents.

**Grants are restricted to be used solely for the projects presented in the application process**. The projects must meet the outcome criteria and generic evaluation criteria presented below. The funds are intended to support new initiatives, and they cannot be used for projects that have already occurred, nor can funds be sought for ongoing projects or recurrent projects.

**Organisations that have already applied on the earlier round are welcomed to apply again with new projects - extensions or refunding of the original project won't be accepted.**

**Organisations that had an unsuccessful application during the first round are welcomed to submit a new application of a different project.**

## 📍 When, Where & How

Opens: 22nd September 2025 | Closes: 13th October 2025
Delivery: October 2025 – January 2026

All applications should be done through the [whatimpact.com](whatimpact.com) grant platform. It's an easy 3-step process: 1. Create an organisation profile 2. Describe your project 3. Complete the application form with specific due diligence and budgeting questions**.**

**Help is available** — drop-in sessions and guidance will be provided during the application windows! Register by emailing newport@whatimpact.com

## 🔍 Evaluation

Applications are scored on the topics below and require a **minimum score** of 17 out of 25, with at least 3 points per category:reach, longevity and legacy, feasibility, value for money and social value (inclusion, wellbeing, environmental impact)

## 🔮 Looking Forward

All funded projects will report on outcomes through the whatimpact.com platform, using clear KPIs, impact tools, and participant feedback mechanisms, showing success stories and lessons learned.

## ℹ️ Further Details

The Newport Community Development Grant Scheme is part of the UK Shared Prosperity Fund (UKSPF), designed to build resilient, healthy and safe neighbourhoods and create innovative approaches to crime prevention through investment in activities that strengthen physical, cultural and social ties and improve access to amenities. The grant is rooted in Newport's vision of **"An Ambitious, Fairer, Greener Newport for Everyone."**

# Crynodeb | Grantiau CFfG Cyngor Dinas Casnewydd 2025/6
# Carfan II Medi/25

## ❓Beth

Mae Grant Datblygu Cymunedol Casnewydd 2025–2026 yn ariannu prosiectau lleol arloesol sy'n cryfhau cymunedau ac yn hyrwyddo cynhwysiant. Mae'n cefnogi mentrau sy'n ymwneud â **diwylliant, yr amgylchedd, diogelwch, a chyfle cyfartal**. Mae'r grantiau'n amrywio o £1,000 i £15,000 (dim ond mewn achosion penodol iawn y byddai cynnig ychydig yn uwch yn cael ei dderbyn) ac maent ar gael i sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghasnewydd ac sy'n cael effaith ar lawr gwlad. Mae'r cynllun grant **yn croesawu'n arbennig brosiectau arloesol ac arbrofol sy'n profi cysyniadau newydd** er budd cymunedau Casnewydd

## Pwy

Sefydliadau sector gwirfoddol, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol cofrestredig neu anghofrestredig (rhaid cael arweinyddiaeth a chyfrif banc), ysgolion (ar gyfer prosiectau allgyrsiol yn unig), busnesau bach a chanolig a busnesau newydd (ar gyfer prosiectau dielw sydd o fudd i'r gymuned)

Rhaid i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yng Nghasnewydd neu ddangos yn glir effaith leol a budd parhaus i drigolion Casnewydd.

**Mae grantiau'n gyfyngedig sy'n golygu bod yn rhaid eu defnyddio ar gyfer y prosiectau a gyflwynir yn y broses ymgeisio yn unig.** Rhaid i'r prosiectau fodloni'r meini prawf canlyniadau a'r meini prawf gwerthuso cyffredinol a gyflwynir isod. Bwriad y cyllid yw cefnogi mentrau newydd, ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi digwydd, ac ni ellir gwneud cais am arian ar gyfer prosiectau parhaus neu brosiectau rheolaidd.

**Mae croeso i sefydliadau sydd eisoes wedi gwneud cais yn ystod y rownd gynharach i wneud cais eto gyda phrosiectau newydd – ni dderbynnir ceisiadau i ymestyn nac ailariannu'r prosiect gwreiddiol.**

**Mae croeso i sefydliadau a gafodd gais aflwyddiannus yn ystod y rownd gyntaf gyflwyno cais newydd ar gyfer prosiect gwahanol.**

## Pryd, Ble a Sut

Yn agor: 22 Medi 2025 | Yn cau: 13 Hydref 2025
Gweithredu: Hydref 2025 – Ionawr 2026

Dylid gwneud pob cais drwy'r llwyfan grantiau **whatimpact.com**. Mae'n broses 3 cham hawdd: 1. Creu proffil ar gyfer y sefydliad 2. Disgrifio eich prosiect 3. Llenwi'r ffurflen gais sy'n cynnwys cwestiynau penodol ar ddiwydrwydd dyladwy a chyllidebu.

**Mae cymorth ar gael** — bydd sesiynau galw heibio a chanllawiau yn cael eu cynnig yn ystod y ffenestri ymgeisio! Cofrestrwch drwy anfon e-bost at newport@whatimpact.com

## Gwerthusiad

Caiff ceisiadau eu marcio ar sail y pynciau isod ac mae angen cael sgôr o 17 allan o 25 **o leiaf**, gydag o leiaf 3 phwynt ym mhob categori: cyrhaeddiad, hirhoedledd ac etifeddiaeth, dichonoldeb, gwerth am arian, a gwerth cymdeithasol (cynhwysiant, lles, effaith amgylcheddol)

## Edrych tua'r Dyfodol

Bydd pob prosiect a ariennir yn adrodd ar ganlyniadau trwy'r llwyfan whatimpact.com, gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol clir, offer effaith, a mecanweithiau adborth cyfranogwyr, gan ddangos straeon llwyddiant a gwersi a ddysgwyd.

## ℹ️ Manylion Pellach

Mae Cynllun Grant Datblygu Cymunedol Casnewydd yn rhan o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfGDU), sydd wedi'i gynllunio i adeiladu cymdogaethau gwydn, iach a diogel a chreu dulliau arloesol o atal troseddu trwy fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cryfhau cysylltiadau corfforol, diwylliannol a chymdeithasol ac yn gwella mynediad at amwynderau. Mae'r grant wedi'i wreiddio yng ngweledigaeth Casnewydd, sef **"Casnewydd uchelgeisiol, tecach, gwyrddach i bawb."**